## ATODIAD 1

### Adroddiadau Archwilio Allanol 2014/15

1. Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014-15

   Fe fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15 **i Aelodau'r Cabinet** ac i aelodau'r **Pwyllgor hwn** mewn cyfarfod ar **30 Gorffennaf 2015.**

2. Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer 2013-2014

   Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad yn deillio o'r gwaith arolygu gan nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yng ngwasanaethau cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

   Mae'r adroddiad **wedi ei gylchredeg i Swyddogion perthnasol a'r Aelodau perthnasol.** Cyflwynwyd yr adroddiad **i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014** gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru **gyda chynllun gweithredu'r Cyngor. Cyflwynwyd papur cychwynnol byr i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 13 Ionawr 2015 ynglŷn â phrosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau ac amserlen y cwynion**. **Disgwylir adroddiad cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 28 Gorffennaf a bydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Medi 2015.**

   Yn ogystal cyflwynwyd **adroddiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Cabinet ffurfiol ar 19 Chwefror 2015** ble cytunwyd i roi sêl bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella AGGCC.

   Cyflwynwyd **ymateb drafft y Gwasanaeth i argymhellion yr Adolygiad Blynyddol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 10 Mawrth 2015.** Penderfynwyd gofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno'r cynllun gweithredu eto ymhen 6 mis er mwyn tracio'r cynnydd.

   Disgwylir y bydd **Adroddiad Blynyddol nesaf yr Arolygaeth** yn cael ei gyflwyno **i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Tachwedd 2015.**

3. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol - Cyngor Gwynedd

   Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a **chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014.**

**Mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu mewn lle sydd yn cyfarch y cynigion a wnaed gan yr Arolygaeth.**

4. <u>Arolygiad ESTYN 11 – 15 Mawrth 2013</u>

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar 11 - 15 Mawrth 2013, barnwyd bod angen monitro cynnydd yr awdurdod gan Estyn.

**Derbyniwyd a chadarnhawyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Cabinet ar 17 Medi 2013.**

**Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 3 Hydref 2013.**

Cytunwyd ar raglen o ymweliadau monitro drwy ein harolygwyr cyswllt, ac fe gynhaliwyd y cyntaf o'r **ymweliadau ar 12 a 13 o Fawrth 2014**. Bu i dîm o ddau arolygwr arfarnu cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn un argymhelliad yn deillio o'r arolygiad er mwyn ystyried perfformiad presennol yr awdurdod ac i adnabod unrhyw anghenion gwella pellach. Nid oedd y llythyr a dderbyniwyd yn dilyn yr ymweliad hwn (Mai 2014) yn cynnwys cynnig gwella pellach.

Bu **ymweliad arall ar 23 -25 Mehefin 2014** gyda thîm o ddau arolygwr yn arfarnu'r cynnydd yn erbyn tri argymhelliad yn deillio o'r arolygiad. **Nid oedd y llythyr dilynol yn cynnwys cynnig gwella pellach.**

Yn dilyn **ymweliad Arolygwyr Estyn ar 2 – 5 Rhagfyr** derbyniwyd llythyr yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro ar ôl yr arolygiad.
"Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil arolygiad Mawrth 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach".

**Bu i Arolygwyr Estyn fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 12 Chwefror 2015 er mwyn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu hymweliad 2 – 5 Rhagfyr 2014.**

Penderfyniad y pwyllgor oedd i dderbyn a nodi cynnwys adroddiad ESTYN gan nodi pwysigrwydd rhoi sylw manwl i'r **adroddiad blynyddol ar berfformiad y Gwasanaeth Addysg** a fydd **gerbron y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Ebrill.** Cafodd hwnnw sylw fel rhan o batrwm arferol y Pwyllgor Craffu o dderbyn gwybodaeth am a herio perfformiad a threfniadau'r Gwasanaeth.

**ATODIAD 1**

5. <u>Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hŷn Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)</u>

   Cyhoeddwyd yr adroddiad uchod ar 14 Mawrth 2014 yn dilyn **arolygiad ar 5 Chwefror 2014 a  Chwefror 2014.** Cynhelir arolygiad sylfaenol bob 3 blynedd. Nodwyd, er bod camau wedi eu cymryd i ymateb i'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf, araf fu'r cynnydd a wnaed; a rhaid gweithredu'n effeithiol i roi'r ddogfennaeth newydd ar waith ym mhob maes, yn enwedig
   - Asesiadau Risg
   - Dogfennau Cynllunio Gofal Person-Ganolog.

6. <u>Adroddiad yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaeth Maethu Gwynedd -  Ionawr 2015</u>

   Cynhaliwyd arolygiad sylfaenol yn ystod mis **Hydref a Thachwedd 2014**. Nodir: "**Ni wnaethom ganfod unrhyw feysydd nad oeddynt yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003**; fodd bynnag bu i ni ganfod meysydd lle y gellir datblygu arfer ymhellach er mwyn cynorthwyo i wella safon y gwasanaeth a ddarperir.
   - Teimla gofalwyr maeth y dylid gwneud mwy i gydnabod yr hyn y mae plant yn ei gyflawni.
   - Datblygu menter i gynnwys plant yn well mewn adolygiadau gofalwyr maeth.
   - Ystyried adolygu fformat y cyfarfod aflonyddu".

   Nodir yn y gofrestr adroddiadau archwilio allanol y **bydd unrhyw argymhellion i'w cynnwys yng nghynllun gwaith yr Adran.**